# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1- Adran F

### Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'w hateb ar 16 Mehefin 1999

**R Yn dynodi bod yr aelod wedi datgan buddiant.**

**( Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau )**

Cwestiynau a gyflwynwyd ar 2 Mehefin 1999

I ofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;

1. **Peter Black (De-Orllewin Cymru);** A fydd hi'n rhoi sicrhad y bydd hi, unwaith y bydd y pwerau priodol wedi'u trosglwyddo iddi, yn ymrwymo'r Llywodraeth i gadw'r un lefel o ddarpariaeth yn yr uned damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Singleton, gan ddarparu gwasanaeth 24 awr. (OAQ98JS)
2. **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa strategaeth y bydd hi'n ei dilyn er mwyn mynd i'r afael ag annhegwch o safbwynt iechyd yng Nghymru. (OAQ117JS)
3. **Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Faint o bobl sy'n marw cyn eu hamser yng Nghymru bob blwyddyn o ganlyniad i glefydau a achosir gan gynhyrchion tybaco. (OAQ121)
4. **Peter Black (De-Orllewin Cymru);** A yw'r cytundeb PFI i godi Ysbyty Baglan Moors yn cynnig y gwerth gorau am arian i Awdurdod Iechyd Morgannwg, ac a yw'n cynnig y defnydd hirdymor mwyaf effeithiol o'u hasedion a'u hadnoddau i adeiladu'r ysbyty. (OAQ122JS)
5. **Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** A fydd hi'n cychwyn trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd gyda'r nod o newid y gyfraith i atal pobl dan 18 rhag prynu sigarèts a chynhyrchion tybaco eraill. (OAQ129JS)
6. **Rod Richards (Gogledd Cymru);** Beth yw'r manylion ynghylch trefniadau

Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru ar gyfer Ysbyty Iechyd Meddwl Dinbych, ac a fydd yn gwneud datganiad. (OAQ108JS)

7. **Geraint Davies (Rhondda);** A yw hi'n ymwybodol o gyfraniad cyn-Gyngor Bwrdeistref y Rhondda i gael gafael ar safle ar waelod y cwm ar gyfer Awdurdod Iechyd Morgannwg Ganol, ac a wnaiff hi grybwyll pryd y bydd ymddiriedolaeth NHS Pontypridd a'r Rhondda yn cael caniatâd i brynu'r safle hwn oddi wrth y Cyngor Bwrdeistref Sirol er mwyn adeiladu ysbyty newydd (OAQ123)
8. **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A oes ganddi gynlluniau i gyflwyno cynllun labelu bwyd yng Nghymru er mwyn rhoi gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr ynghylch cynnwys bwydydd. (OAQ116JS)
9. **Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A fydd hi'n cefnogi mentrau megis y rhai sy'n cael eu hystyried gan grp Materion Gwyrdd Ymddiriedolaeth NHS Llandoche / Ysbyty Athrofaol Cymru i annog eu staff i deithio i'r gwaith ar gefn beic yn hytrach na mewn car. (OAQ124)
10. **Michael German (Dwyrain De Cymru);** Beth yw'r prif faterion sy'n effeithio ar y gyllideb a ddyrennir i'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru a beth yw'r amserlen ar gyfer adolygiad gan y Cynulliad Cenedlaethol o'r fformwla ar gyfer cyllido'r Awdurdodau a'r Ymddiriedolaethau Iechyd. (OAQ107JS)
11. **Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** Yn dilyn dihangiad claf o'r uned gadw yn Nh Llywelyn, Llanfairfechan, a fydd yr Ysgrifennydd yn gwneud datganiad ynghylch y weithdrefn ar gyfer hysbysu ysgolion a phreswylwyr lleol pe bai mater cyffelyb yn digwydd eto. (OAQ113JS)
12. **Rod Richards (Gogledd Cymru);** Ar ba ddiwrnod o bob mis y cyhoeddir rhestrau ac amserau aros yr ysbytai. (OAQ109JS)
13. **David Davies (Trefynwy);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i leihau rhestrau aros yr ysbytai. (OAQ131JS)
14. **David Davies (Trefynwy);** A yw'n bolisi ganddi i gael gwared â wardiau cymysg mewn ysbytai, ac a fydd hi'n gwneud datganiad. (OAQ132)

Cwestiynau a gyflwynwyd ar 3 Mehefin 1999

**15. Brian Gibbons (Aberafan):** A fydd hi'n rhoi'r newyddion diweddaraf ar y cynnydd wrth ddarparu'r ysbyty newydd ym Maglan, Port Talbot ac yn gwneud datganiad yngln â'r amrediad gwasanaethau y bwriedir eu cynnig yn yr ysbyty. (OAQ133VB)

**16. Carwyn Jones (Pen-y-bont):** A fydd hi'n gwneud datganiad yngln â sawl Ymddiriedolaeth Iechyd fydd yn talu cyfraddau premiwn i'w haelodau staff am weithio ar Noswyl y Mileniwm. (OAQ134VB)

Cwestiynau a gyflwynwyd ar 9 Mehefin 1999

**17. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A oes ganddi gynlluniau ar gyfer penodi comisiynydd plant. (OAQ143VB)

**18. Mick Bates (Maldwyn);** Beth yw ei chynlluniau ar gyfer archwilio effeithiolrwydd Secretin fel triniaeth at Awtistiaeth. (OAQ152VB).

**19. Alison Halford (Delyn);** I roi addewid y bydd yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu ledled Cymru o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol gan nodi pryd y bydd hyn yn digwydd. (OAQ150JS)

**20. Val Feld (Dwyrain Abertawe);** I esbonio sut mae'n bwriadu sicrhau y bydd y Rhaglen newydd ar gyfer Sgrinio Ceg y Groth yn rhoi gwasanaeth dibynadwy a chynhwysfawr i fenywod yng Nghymru, ac i fenywod ifainc ac i fenywod o gymunedau ethnig lleiafrifol yn arbennig. (OAQ151JS)

**21. Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau mae hi wedi'u cael am y gwasanaeth ambiwlans yn y Canolbarth a'r Gorllewin, a pha gamau mae hi'n bwriadu eu cymryd i wella'r gwasanaeth ambiwlans yn yr ardaloedd hynny. (OAQ159VB).

**22. Sue Essex (Gogledd Caerdydd);** Gwneud datganiad ar y berthynas rhwng tai o gyflwr gwael ac afiechyd yng Nghymru a sut allai'r Cynulliad ymateb i'r berthynas honno. (OAQ167JS)

Cwestiynau a gyflwynwyd ar 9 Mehefin 1999

23. **Dr Dai Lloyd (De Orllewin Cymru);** Pa beirianwaith a ddefnyddir i benodi i fyrddau'r Ymddiriedolaethau Iechyd cyfunedig newydd (gan gynnwys nifer y bobl a wnaeth gais ym mhob achos). (OAQ172VB)
24. **Helen Mary Jones (Llanelli);** Pa drefniadau y mae'n bwriadu eu gwneud i fynd i'r afael â diffyg ariannol Awdurdod Iechyd Dyfed Powys. (OAQ170JS)
25. **David Melding (Canol De Cymru);** Wrth weithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru, a roddir arian sydd wedi'i glustnodi'n

benodol er mwyn darparu mwy o ofal seibiant, fel y gwneir yn Lloegr. (OAQ186JS)

26. **David Melding (Canol De Cymru);** Faint o Ymddiriedolaethau NHS Cymru sydd mewn dyled. (OAQ188JS).

I ofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant Gydol eich Oes;

Cwestiynau a gyflwynwyd ar 2 Mehefin 1999

1. **Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i gynnwys cyflogwyr yn y broses o ddylunio a chyflwyno addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed yng Nghymru. (OAQ102JS)
2. **Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Sut y bydd ef yn sicrhau bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig tenau-eu-poblogaeth yn cael cyfleoedd 'digonol a chyflawn' i dderbyn Addysg Bellach. (OAQ119JS)
3. **Michael German (Dwyrain De Cymru);** I bennu'r materion a fyddai'n ystyriaethau pwysig wrth fynd i'r afael â'r mater o gyflwyno ffioedd hyfforddi myfyrwyr mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a'r materion a fyddai'n wynebu'r Cynulliad Cenedlaethol wrth adolygu'r penderfyniad hwn. (OAQ103JS)
4. **Christine Chapman (Cwm Cynon);** A yw ef yn bwriadu sicrhau y bydd gofal plant digonol a fforddadwy ar gael ledled Cymru i'r bobl hynny sydd am dderbyn cyfleoedd i ddysgu ac i dderbyn hyfforddiant. (OAQ127)
5. **Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** (i) Beth oedd cyfanswm y cyllid Mynediad a ddosbarthwyd gan y sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru y llynedd (Medi 1997-Awst 1998); (ii) Faint a gadwyd yn ôl gan y sefydliadau Addysg Uwch ym mis Gorffennaf 1998 ar gyfer mis Awst; (iii) Faint roesant yn ôl i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ddiwedd mis Gorffennaf 1998 o ran cyllid nad oedd ei angen arnynt. (OAQ125)
6. **Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A fydd ef yn gwneud cynrychioliadau i Lywodraeth y DU i ganiatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bennu ei bolisi ei hun ar ffioedd hyfforddi mewn addysg Uwch yn annibynnol ar weddill y DU. (OAQ111JS)
7. **Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** I amlinellu cyfraniad y colegau addysg bellach - yn y dyfodol - at ddatblygiad economaidd yng Nghymru (OAQ114JS)
8. **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa fesurau strategol y gellir eu dilyn i annog dysgu gydol oes yng Nghymru. (OAQ118JS)
9. **Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** O ystyried y ffaith bod gan y Cynulliad ddau Bwyllgor addysg, y naill â chyfrifoldeb dros addysg academaidd a'r llall â chyfrifoldeb dros addysg alwedigaethol, a all ef egluro pwy fydd yn gyfrifol am ddatblygu cyrsiau galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4. (OAQ104JS) [c]
10. **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa bolisïau fydd yn cael eu sefydlu i fynd

i’r afael ag anfantais addysgol yng Nghymru. (OAQ115JS)

11. **Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Faint o bobl sy’n gwasanaethu ar Gorfforaethau/ Gyrff Llywodraethu Colegau Addysg Bellach yng Nghymru, a beth yw’r cyfrannedd o safbwynt y ddau ryw. (OAQ120)

Cwestiynau a gyflwynwyd ar 7 Mehefin 1999

**12. Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr):** Yn sgil ymddangosiaddiweddar yr Alban yng Nghwpan Criced y Byd ac ymddangosiad posibl Iwerddon yn y dyfodol, awnaiff ef gynnig sylwadau ynghylch unrhyw symudiad i ffurfio Tîm Criced Prawf i Gymru.(OAQ138VB)

**13. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau ymae’n eu cymryd i annog sefydliadau i ddarparu cyrsiau galwedigaethol a chyrsiaugradd rhan amser (OAQ140VB). *[c]*

Cwestiynau a gyflwynwyd ar 9 Mehefin 1999

**14. Janice Gregory (Ogwr);** Pa gamau sydd ar y gweill i ddatblygu i’r eithaf yragenda dysgu gydol eich oes yng Nghymru. (OAQ211VB).

**Anfonwch e-bost at Webmastergyda chwestiynau neu sylwadau am y wefan yma.**
**Hawlfraint © 1999 Gwefan y Cynulliad Cenedlaethol**
**Diwygiad diwethaf: 10/06/99**